



Ymgynghoriad ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer Ymchwiliad COVID-19

YMATEB GAN CGGC

1. [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

EGLURWCH PAM EICH BOD O'R FARN NAD YW'R CYLCH GORCHWYL DRAFFT YN YMWNEUD Â'R HOLL FEYSYDD Y DYLAI'R YMCHWILIAD ROI SYLW IDDYNT

2. Nid oes unrhyw sôn yn y Cylch Gorchwyl drafft am waith anhygoel y sector gwirfoddol a gwirfoddoli yn ystod y pandemig.
3. Roedd gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a'r sector ehangach yn rhan annatod o'r gwaith o gynorthwyo pobl a chymunedau ledled Cymru a'r DU drwy gydol argyfwng COVID-19. Gwnaeth gallu'r sector gwirfoddol i weithio gyda'i gilydd – a chyda chyrrff cyhoeddus – i wneud gwahaniaeth enfawr i lesiant pobl arwain at weithredu effeithiol yng ngŵydd y pandemig, o gludo presgripsiynau i gludo pobl i apwyntiadau brechu – a gwnaeth mwy na 18,000 o bobl gofrestru ar safle Gwirfoddoli Cymru yn ystod yr argyfwng i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Digwyddodd hyn i gyd serch colli incwm sylweddol mewn cyfnod lle roedd galw cynyddol a gwasanaethau'n cau.
4. Drwy esgeuluso'r sector gwirfoddol a gwirfoddoli yn y fath fodd, bydd bwlch enfawr yn yr ymchwiliad terfynol. Bydd hi bron yn amhosibl i'r ymchwiliad ddangos sut y cafodd cyfraniad y sector a gwirfoddolwyr gymaint o effaith gadarnhaol yn ystod y pandemig, nac i ddangos y rôl werthfawr y gallant eu chwarae yn yr adferiad. Bydd hefyd yn golygu na fydd yr ymchwiliad yn gallu casglu gwybodaeth am sut dylai'r sector gwirfoddol – a sut y mae'n rhaid iddo - fod yn rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer pandemigau yn y dyfodol.
5. Dylai'r ymchwiliad hefyd llywio gwaith gwydnwch cymunedol ehangach a bwydo i mewn i ba mor barod ydym ni am argyfyngau a phroblemau amrywiol.

6. Mae gan CGGC lawer o dystiolaeth o effaith y sector yn ystod y pandemig y gallai gyfrannu at ymchwiliad COVID-19 terfynol Llywodraeth y DU. Rydym yn gobeithio y bydd Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad yn caniatáu i ni wneud hynny.
7. Nodwn hefyd nad yw'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gael yn Gymraeg (er bod y Cylch Gorchwyl drafft ei hun yn Gymraeg). Mae hyn yn rhwystro siaradwyr a chymunedau Cymraeg rhag ymateb.

PA FATERION NEU BYNCIAU DYLAI'R YMCHWILIAD EDRYCH ARNYNT YN GYNTAF?

8. Awgrymw'n y byddai sicrhau bod pobl yn barod, cyfathrebu'n glir ac ymgysylltu'n effeithiol ar draws holl lywodraethau, awdurdodau lleol a threfniadau sifil wrth gefn y wlad yn bwynt dechrau da.
9. Dylid nodi bod y sector gwirfoddol wedi'i gynnwys, ei effeithio neu ei gynnwys a'i effeithio gan lawer o'r meysydd a restrir - gan gynnwys cau sectorau lletygarwch, manwerthu, chwaraeon a hamdden; tai a digartrefedd; gwarchod; cyfathrebu penderfyniadau iechyd y cyhoedd; ymateb y sector iechyd a gofal cymdeithasol; cymorth i bobl sy'n agored i niwed, ymhlith llawer o bethau eraill - felly mae hepgor y sector yn gyfan gwbl o Gylch Gorchwyl yr ymchwiliad yn gamgymeriad enfawr, fel y nodwyd eisoes.

A DDYLAI'R YMCHWILIAD OSOD DYDDIAD DIWEDD ARFAETHEDIG AR GYFER EI WRANDAWIADAU CYHOEDDUS ER MWYN HELPU I SICRHAU CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION AMSEROL?

10. Dylai proses yr ymchwiliad, ynghyd â chyfathrebu'r canfyddiadau a'r argymhellion, fod yn amserol.

SUT DYLLID DYLUNIO A CHYNNAL YR YMCHWILIAD MEWN MODD SY'N SICRHAU BOD LLAIS POBL MEWN GALAR NEU'R RHEINI SYDD WEDI DIODDEF NIWED NEU GALEDI DIFRIFOL O GANLYNIAD I'R PANDEMIG YN CAEL EI GLYWED?

11. Mae hwn yn faes arall lle y mae cynnwys y sector gwirfoddol yn bwysig aruthrol. Mae'r sector mewn sefyllfa ddelfrydol i weithio gyda'r bobl y nodwyd gennych uchod, yn ogystal â gyda chymunedau llawr gwlad ac unigolion anoddach eu cyrraedd, i gael eu lleisiau wedi'u clywed yn yr ymchwiliad. Yng Nghymru ei hun, mae 43,994 o fudiadau yn y sector gwirfoddol, a'r rhan fwyaf ohonynt (38,975) yn gweithio ar y lefel leol hanfodol honno. (Ffynhonnell: [Porth Data'r Sector Gwirfoddol](#)) Trwy anwybyddu'r sector gwirfoddol yn y Cylch Gorchwyl, mae'r ymchwiliad yn llesteirio ei hun.

12. Gallai arbenigedd grwpiau cymorth i ddiodefwyr ac adborth gan reoleiddwyr ac ombwdsmyr perthnasol fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod y lleisiau hyn yn cael eu clywed.

13. Gwahoddwn yr ymchwiliad i edrych ar Yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n ceisio annog gweithgarwch ymgysylltu cyson o ansawdd da gyda'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau.